# O Law i Law a’r dechrau gorau: Cyngor Tref Caernarfon

Helo, this episode will be in Welsh.

If your Welsh isn't up to following along, then we are completely fine with you skipping to the next one.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**
Helo a chroeso i'r gyfnewidfa, podlediad wedi'i gynhyrchu gan archwilio cymryd. Siôn Owen ydw i a dwi'n gweithio i'r gyfnewidfa ar dda.

Mae'r bennod hon yn rhan o gyfres sy'n edrych ar sector y Cynghorau Cymuned a Thref.
Tro yma, fu i ni fynd i Gaernarfon er mwyn dysgu mwy am siop O Law i Law, siop elusen sy'n arbenigo mewn dillad o nwyddau ar gyfer babis a phlant, anodd agor i ddechrau yn ystod cyfnod y pandemig.

Dwi mewn stafell yn yr Institute yn Gaernarfon, adeiladau cyngor y dref, a mi dwi yna yma efo bobl sy'n nghlwm â brosiect O Law i Law.

‘Sa chi wedi cyflwyno eich hunan os gwelwch yn dda?

**Cynghorydd Anna Jane Evans (Cyngor Tref Caernarfon)**
Cynghorydd Anna Jane Evans, dwi dwi'n un o'r gwirfoddolwyr yn y siop.

**Cynghorydd Ann Hopcyn (Cyngor Tref Caernarfon)**
Ann Hopkin, eto yn gynghorydd dre ac yn un o'r gwirfoddolwyr yn O Law i Law.

**Ellen Owen (Rheolwr O Law i Law)**
Ellen Owen, Rheolwr siop O Law i Law.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**
Diolch, helo. I ddechra, sa chi'n medru disgrifio be' ydi'r prosiect O Law i Law?

**Ann Hopcyn (Cyngor Tref Caernarfon)**
Ma' O Law i Law yn siop sy'n gwerthu nwydde ail law, dan ni'n ca'l rhoddion gan y gymuned. Ond be sy'n falle'n unigryw am O Law i Law, ma' pob peth yn ymwneud â phlant, o fabanod newydd-anedig, fyny yn tan bo' nhw'n eu harddegau, dillad, teganau, coetsys cadair, llyfrau, pob peth yn ymwneud â magu plant.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**
Diolch, wedyn be' sbardunodd dechrau'r siop a’i agor o a ballu felly?

**Ann Hopcyn (Cyngor Tref Caernarfon)**
Adeg Covid pan oedd y cyfnod clo yn dechre fe sylweddololdd rhai o'r cynghorwyr ar y Cyngor Tref fod trigolion naill ai yn gweld gostyngiad yn eu cyflog neu falle'n colli cyflog yn gyfan gwbl ond er hynny o'dd babis yn dal i ga'l eu geni o'dd eu plant nhw'n dal i dyfu a fe benderfynon ni fynd at ein teuluoedd a gofyn os o'dd ganddyn nhw ddillad, nwydde plant do'n nhw ddim o'u hangen mwyach.

A dyna be be wnaethon ni wnaethon ni gasglu'r rhein at ei gilydd yn seler yr institute sef adeilad y Cyngor Tref yng Nghaernarfon a ma' na seler fawr a wnaethon ni gasglu'r dillad fan' 'ny ac wedyn yn ystod y cyfnod yna fydde'r gwasanaethe cymdeithasol yn dod aton ni gyda chais er enghraifft bwndel o ddillad ar gyfer plentyn pump oed.

Fydden ni'n casglu'r rheini at ei gilydd ac yn trosglwyddo nhw i'r gweithwyr cymdeithasol fydde'n mynd â nhw i'r teuluoedd. Fe ddaeth hi'n amlwg ar ôl ychydig fisoedd o hyn bod e'n anfoddhaol bo' bobl ddim yn cael dewis i dillad eu hunen. So ma' ma' rhai plant pump oed yn blant mawr ma'r lleill yn blant bach felly oedden ni'n teimlo bod angen i ni wedyn symud ymlaen o'r Institute fel bod gynnon ni le lle oedd y cyhoedd yn medru dod i wneud eu dewisiadau eu hunain.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**
A hwnna wedyn y yr sbardyn greiddiol yna'n rhan o'r y byd cyhoeddus i gyd yn tynnu at ei gilydd yn ystod yr argyfwng ydoedd?

A wedyn fel oedd yr argyfwng yn sefydlogi'n bach yn fan'na wnaethoch chi wedyn deimlo bod angen rhoi dewis i bobl 'lly?

**Ann Hopcyn (Cyngor Tref Caernarfon)**
Ie a falle bydde Anna Jane yn sôn rywfaint am Porthi Pawb adeg hynny.

**Anna Jane Evans (Cyngor Tref Caernarfon)**
Ie oedd porthi pawb hefyd yn ystod y cyfnod Covid. Oeddan ni'n bwydo ar ddydd Iau.
Oedd yna griw o wirfoddolwyr yn dod at ei gilydd i goginio a wedyn dosbarthu bwyd i deuluoedd y Dre a mi roedd yna wirfoddolwyr hefyd yn casglu prescriptions ac yn mynd rownd. A oedd yna gymaint o fwrlwm a deud y gwir pryd yn ystod y cyfnod Covid yna oedd yn tynnu bobol at ei gilydd ac yn adeiladu bobl, 'roedd O Law i Law jyst yn un o'r petha yn rhan o'r bwrlwm yna yn ystod y cyfnod yna.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**
Ia, wedyn pan wnaethoch chi benderfynu wedyn symud o ddosbarthu i'r siop, be' ddigwyddodd yn fan'na lly?

**Ann Hopcyn (Cyngor Tref Caernarfon)**
Wnaethon ni benderfynu cael siop ond hefyd bod ni'n lleoli'r siop mewn ardal falle mwy heriol o ran Caernarfon, ardal bwysig iawn, sef Stryd Llyn. Ond falle bod

Stryd Llyn, bod pethe ddim wedi bod mor ffyniannus yn Stryd Llyn yn y blynyddoedd d'wetha i gymharu â strydoedd eraill, felly penderfynu ca'l siop un deg pedwar Stryd Llyn ac o'dd hynny mis Mawrth 2021 ynte Elen?

**Ellen Owen (O Law i Law)**
Ia. Ddechreuesh i yna wedyn yn y mis Mai. Agor y siop, wedi rhoi bob dim yn ei le, peintio, llnau, oeddan ni gyd wrthi'n llnau ar fora Sul a betha felly'n codi teils y llawr i fyny a o' na lot lot o waith ond mi nathon ni o. A nathon ni agor yn y mis Gorffennaf a ers hynny mae o wedi mynd o nerth i nerth a ma'r angan dal i fod yn y dre i'r siop

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**
Dal angan lly?

**Ellen Owen (O Law i Law)**
Yndi yndi definite.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**
A gaethon ni daith sydyn rownd cyn dod i fa'ma i recordio a ma' na lot o stwff na 'does?

**Ellen Owen (O Law i Law)**
Ma' lot o stwff a ma' hynny'n wythnosol. Mae o'n mynd lawr chydig am rywfaint a wedyn mae o nôl eto'n bentwr mawr. 'Da ni'n gwerthfawrogi bob dim dan ni'n cael i'r siop, pobol ffyddlon sy'n dod i fewn i'r siop ac hefyd ymwelwyr sy'n dod i fewn i'r dre adeg gwylia ne' ar y ar y tripia dyddiol felly o Llandudno. A ma' pawb di gwirioni efo'r siop ac yn deud pa mor dda ydi bod o i gyd yn un lle plant yn unig ran fwya ond do's na'm byd yn i hardal n'w o'r fath lle ma' nw'n dŵad o felly wedyn na mae o'n mae o'n deimlad da iawn.

**Anna Jane Evans (Cyngor Tref Caernarfon)**
Dwi dwi'n meddwl bod y ffaith mai petha plant ydi o, dydi siopa' elusen yn gyffredinol ddim yn gwerthu nwydda' plant a felly mae o 'di, mae O Law i Law wedi nabod gap mawr yn y farchnad yna deud y gwir ac wedi llenwi bwlch amlwg iawn, bod yn onest yn dydi?

'Da ch'n gwybod? Ond achos bod nhw'n stwff sydd yn cymryd lot o le a 'di siopau elusen yn gyffredinol ddim yn ddim yn derbyn y nwydda yna achos bod sgennyn nhw'm lle i storio nhw na.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**
A jyst er cyd-destun i bobl sydd ddim yn nabod Caernarfon. Stryd Llyn ydy y stryd lle fysa'r chains cenedlaethol a ballu de. Stryd heb draffig rhan fwya o'r amser. A wedyn wrth gwrs ma' rheina i gyd sydd wedi dioddef dros yr ugain mlynedd dwytha, fel ma'r chains wedi symud allan o ganol tre a ballu dydy. Wedyn mae yn braf gweld siop sy'n ffynnu yn ganol ar y stryd honno fyd dydy. Felly, gwirfoddolwyr sy'n staffio'r siop?

**Ellen Owen (O Law i Law)**
Ia, fi fel rheolwr a wedyn tîm o gwirfoddolwyr gwneud dwy shifft mewn diwrnod deg dan hanner awr dwy deuddag, hanner awr dwy deuddag dan dri. Rhei fodlon neu isio gweithio trwy'r dydd achos ma' nhw wrth eu bodd cael y cympeini, gweld gwyneba newydd ac hefyd bod hefo'i gilydd yn y siop yn gwirfoddoli.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**
Ia, ma'n elfen gymunedol i wirfoddolwyr felly does. Y gymuned o wirfoddolwyr yn ogystal â helpu'r gymuned trwy wirffoddoli 'de.

**Ellen Owen (O Law i Law)**
Ia, ma'n helpu nhw hefyd, dim jyst be' ma' nhw'n neud, ma'n helpu nhw. Ma' na dipyn ohonyn nhw yn byw ar ben eu hunain, ella ddim yn gweld teulu bob dydd, wedyn ma' dod i'r siop yn blesar gyda nhw. Ca'l helpu a gweld babis bach a ia ma' dipyn o fabis yn dod acw.

Ond ma' pawb wrth eu bodd yn y siop yndi?

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**
O da iawn, achos hwnna'n arwain i'r cwestiwn nesa:

Pa wahaniaeth dach chi di weld fel hynny yw fel ma'r siop wedi datblygu a ballu dros y ers i chychwyn ni lly?

**Ann Hopcyn (Cyngor Tref Caernarfon)**
Ma'r siop wedi hen ennill ei phlwy' yng Nghaernarfon erbyn hyn a gyda'r bobl lleol ma' bobl yn dod o lefydd eraill yn unswydd i ddod i O Law i Law a oedd Anna Jane yn sôn am y pethe plant yn benodol. Ma' ganddon ni bethe ar gyfer babis bach, babis prem ma' gynnon ni stwff reit drwyddo lle falle mewn siop elusen arferol ma' gynno nhw un reilen o bethe plant. Felly ma' ma' bobl wedi sylweddoli hynny.

Maen nhw wedi sylweddoli hefyd bod y dillad, enwedig y meintiau cynta, dyn nhw ddim gwaeth. Prin ma' nhw wedi gwisgo nhw felly ma nhw yn dod nôl ar gyfer hynny ond dwi wrth fy modd pan fo' na ymwelwyr yn dod a chi'n cael gofyn iddyn nhw 'os gynnoch chi siop fel hyn lle dych chi'n byw?' Ac wrth gwrs yr ateb ydy nag oes. Mae y siop yn reit arbennig yn ei darpariaeth ac ma' na ymwelwyr yn dod nôl hefyd.

Maen nhw'n dod ar eu gwyliau falle i Llandudno a maen nhw'n cael diwrnod yn yng Nghaernarfon a maen nhw'n galw mewn â nhw i lawr unwaith eto. Felly, yn sicr ma' na groeso mawr a ma' na gefnogaeth dda wedi bod iddi yn y gymuned hon, yn yr ardal a thu hwnt hefyd.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**
Ie a ma' wedyn ma' hwn hefyd yn enghraifft o sut ma' cyngor cymwys yn medru defnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol dydi achos o dan hwnna ma'r siop wedi cael ei sefydlu de.

**Ann Hopcyn (Cyngor Tref Caernarfon)**
Ie. Ma' ca'l y pŵer hwnnw yn dangos bod y cyngor yn ca'l ei redeg mewn ffordd briodol ac felly dan ni'n medru wedyn cynnal ein siop o dan y dderfwyddiaeth honno.

**Anna Jane Evans (Cyngor Tref Caernarfon)**
A dwi'n meddwl bod ca'l y siop wedi helpu ni ga'l y cymhwysedd yna hefyd achos dwi'n meddwl bod y naill beth di bwydo'r llall.

**Ellen Owen (O Law i Law)**
Ma' wedi helpu fi'n ofnadwy hefyd. Yn bersonol dwi wedi ca'l y swydd ora 'rioed.

Ocê, fel dwi'n barod i fod yn ymddeol, ond dio'm gwahaniaeth am hynny, dwi di wneud pum mlynedd, oedd mis dwytha, a ma' gynnon ni ddwy arall dwi'n meddwl, a wedyn na fo, dwi'm yn gwbod be' fydd yn digwydd ond ia na dwi di cael plesar mawr a di cael yng nghyflogi am wneud rwbath dwi'n mwynhau.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**
Na ma' a ma' hwnna'n braf iawn i glywed

**Ellen Owen (O Law i Law)**
Yndi, yndi mae o.

**Anna Jane Evans (Cyngor Tref Caernarfon)**
Wedyn ma' gwirfoddoli yna'n hwyl hefyd. I mean, dwi'm yn smwddio adra ond dwi'n smwddio yn y siop. Mae bod yn cefn y siop a jyst mynd drwy fagia a ma' na ryw satisfaction mewn gwagio bag neu gwagio focs a ca'l nhw allan 'na. Achos 'dych chi'n gweld y pentyrra a stwff yn dod i mewn ma' jyst gweld nhw'n ca'l eu clirio a mynd allan a wedyn. Neu os dach chi ar y till ac yn gweld bobol yn prynu nhw dach chi'n meddwl 'o fi smwddiodd hwnna' ond mae jyst yn, ma'r teimlad yna bod y stwff yna i gyd yn mynd i landfill neu dan ni o ran y gwastraff dan ni'n dan ni'n cynhyrchu gymaint o stwff. Lot gormod o stwff a mae o jyst yn ddefnydd da o'n hamsar ni ac o ac o'r stwff bod o'n ca'l ei ail ddefnyddio a'i ailgylchu fel hyn. A bod o'n helpu bobol yn ariannol ac yn ch'mod ma' na deuluoedd yn dod i mewn sy'm yn gallu fforddio, wel dan ni'n gallu cyflenwi angen pan ma' nw'n gofyn am help hefyd yn dydan ni Ellen. Ma' na werth mawr mawr i'r peth.

**Ellen Owen (O Law i Law)**
Wel dwi di ca'l un ferch ifanc yn deud bo' hi di gallu aros adra am dri mis ychwanegol ar ôl geni babi am bo' hi di safio arian yn y siop efo coetsh, dillad, moses basket, be' bynnag o'dd hi angan

o'dd o yn y siop. A nath hi benderfynu ‘reit tri
mis o'n nghyflog i sa di'n mynd i dalu am hynna, fedrai aros adre efo'r babi am dri mis yn hirach’.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**
Ie ma' na lot o betha’, lot o cit yn dod efo babi yn enwedig tro cynta does?

**Ann Hopcyn (Cyngor Tref Caernarfon)**
Ocê be' o'dd Anna Jane yn deud hefyd ma' ryw fath o therapi mae'n deud falle treulio dwy awr yn smwddio. ‘Da chi'n ca'l amser i feddwl a ca'l trefn ar eich meddwl. ‘Da chi'n smwddio a dach chi'n gweld y dillad ma waw, maen nhw'n maen nhw'n trawsnewid o fod falle wedi rinclo, dach chi'n dach chi'n smwddio nhw, roi nhw ar yr hanger a maen nhw'n edrych yn barod i'w gwerthu.

Ond ‘dyn ni hefyd ‘dyn ni'n eitha' dewisol gyda gyda'n stwff, chi'n gwybod, ma' na rhai pethau sydd ddim yn ddigon da i fynd i fynd allan, felly dyn ni'm yn gallu pasio rhei ‘ny mlaen.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**
Ie, achos ma' na ma' na lot o stwff yn y cefn yna, ond eto ma' na drefn pan ma' rywun yn cael ei lygaid i fewn. Na, ma'n braf i weld.

**Ann Hopcyn (Cyngor Tref Caernarfon)**
Dwi'n falch bo' chi'n gweld y drefn sydd yno. Ma' na drefn, ma' na lot o stwff a ma e yn waith. Ma' angen cadw ar ben
y rhoddion a dwi'n cofio pan gaethon ni'r rhoddion cynta’ o'n i'n meddwl wel dyna fe nawr, oes gin bobl Caernarfon ddim mwy o bethe i'w rhoi.

A dyma ni pum mlynedd yn ddiweddarach yn trio'n gorau i gadw ar ben y pethe sy'n cyrraedd a ma' na bethe ardderchog yn cyrraedd, pethe newydd sbon enwedig yn y meintiau cynta ma' na bethe fanna gyda label. Ddim wedi cael ei gwisgo o gwbl, felly dan ni mor falch bod ni yn medru cyflenwi'r angen ac yn arbed, arbed taflu lle falle bydde fe'n digwydd fel arall.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**
Ac ar hynny ydach chi'n medru rhannu be di dyfodol yr y siop, y project a ballu? Dach chi'n cario mlaen os, blaniau i ddatblygu?

**Ellen Owen (O Law i Law)**
Oeddwn i ddim yn meddwl fysa fo o wedi para pum mlynedd pan wnes i ddechrau. Ges i'n nghontract cynta fi am chwech mis dwi meddwl a
pum mlynadd ymlaen a dwi'n dal yna. Dwi’n gobeithio mewn pum mlynadd arall fydd hi'n dal i fod yna, ella ddim yr un bobol yn rhedag y siop ond fydd hi'n dal yna i helpu bobol.

**Anna Jane Evans (Cyngor Tref Caernarfon)**
Mae'n anodd iawn dychmygu Caernarfon heb O Law i Lawr ŵan deud y gwir achos mae o'n... Ma' na ma' na gymaint o bobl yn ynghlwm â fo. Chimod, dim jyst y gwirfoddolwyr.
Ma'r bobl sydd yn dod â stwff.

Mae o wedi creu momentwm ei hun mewn gymaint o ffyrdd yn do deud y gwir. Dan ni'm yn gallu, dwi'm yn gallu rhagweld bod ni'n gau o neu beth. Na mae'n bosib bydd isio symud neu bydd isio edrych ar y posibiliadau eraill, ond yn sicr fydd y gwasanaeth ar
siop 'swn i'n meddwl yn gobeithio yn gallu parhau.

**Ann Hopcyn (Cyngor Tref Caernarfon)**
Bydden ni'n bydden ni'n fawr obeithio fel endid bydd O Law i Law yma am flynyddoedd i ddod. Bydd angen ystyried lleoliad ac yn y blaen o bosib yn y blynyddoedd nesa. Ma' angen hefyd, falle un o'r heriau ydy denu gwirfoddolwyr, ac os dan ni fel gwirfoddolwyr dan ni bum mlynedd yn hŷn na pan gychwynnodd pan gychwynnodd y siop, felly dyna un o'r heriau byddwn i'n tybio ydy cael bobl i mewn.

Ond unwaith ma' gwirfoddolwyr yn cyrraedd a dechre gweithio yna maen nhw'n mynd yn rhan o'r teulu. Ac mae e, ma'r siop yn ca'l be' ma' nhw'n cyfrannu i'r siop, ond ma'r siop yn cyfrannu cymaint i ni fel gwirfoddolwyr hefyd.

A ma' cwrdd â bobl tibod a 'be' ydy oed y babi?' a 'beth yw enw'r babi?' a dan ni'n cael sgwrs gyda mamau falle bod neb wedi siarad â nhw trwy'r dydd. Falle dyna'r sgwrs gynta maen nhw'n cael y diwrnod hwnnw a ydy ni fan'na yn yn eu croesawu nhw a jyst ryw bethe bach. Ddim byd mawr chi'n gwbod jyst ryw bethe bach. Wel dwi'n meddwl bod hynny hefyd bod yr ymwneud cymunedol yna yn gwneud e yn llawer mwy gwerthfawr na jyst siop.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**
Ie, mae'n creu cymuned yn y pen draw yndydi?

**Anna Jane Evans (Cyngor Tref Caernarfon)**
Ydi, a mae'n gweld plant yn dod i mewn efo'u pres poced isio prynu petha, bod nhw'n dewis dod i O Law i Law. Ma' hynny'n ma' hynny wastad ydi ar fore dydd Sadwrn weithiau, felly na ma' plant yn dod i mewn a'n dewis dod i fan'na i brynu.

Ma'r holl syniad siop elusen, stigma siop elusen, a wedi cael ei chwalu yn eu plentyndod nhw wedyn, dydi? Mae wedi dod yn arfer a mae o, ma' hwnna'n beth tymor hir wedyn yn eu ffordd nhw o weld petha ac o ddewis prynu lly.

**Ellen Owen (O Law i Law)**
Ond dydi lot o'r plant ddim yn sbïo arnom ni fel siop elusen chwaith, ma' nhw'n jyst sbïo fel siop dois, siop las, siop Anti Ellen a fatha ma' nhw wrth eu bodd ca'l dod i fewn.

A dio'm ots gynnyn nhw faint ma' nhw wario pump deg ceiniog pump punt ma' nhw'n licio ca'l prynu rwbath yn y siop.

Ma' hynna'n be- mynd yn bell, dydi?

**Anna Jane Evans (Cyngor Tref Caernarfon)**
Ie, ma' rwbeth ma' nhw eu hunain di ddewis.

**Ann Hopcyn (Cyngor Tref Caernarfon)**
Am bris rhesymol iawn.

**Ellen Owen (O Law i Law)**
Ofnadwy.

**Siôn Owen (Archwilo Cymru)**
Ia, wedyn O Law i Law, ar stryd llyn yn Gaernarfon, siop sy'n gymuned yn ei hun ac yn gwneud gwahaniaeth gadarnhaol i'r gymuned.

**Ann Hopcyn (Cyngor Tref Caernarfon)**
Yn bendant bydden ni, a fi'n credu bod e'n bwysig hefyd i ni gofio dan ni'n diolch i Elen fel rheolwr. 'Da ni'n sicr yn diolch i'n gwirfoddolwyr ni sy'n cadw ni fynd. Ond y gymuned, y bobl sy'n dod â rhoddion, y cwsmeriaid, cwsmeriaid falle'n dod unwaith, y cwsmeriaid rheolaidd dan ni'n diolch i rheini hefyd, a diolch i'r Cyngor Tre.

Ma'r Cyngor Tre wedi bod yn hynod o bositif am O Law i Law ers y dechre' ac yn parhau felly, felly ni'n ddiolchgar iawn am gefnogaeth y cynghorwyr i'r fenter. Ma' nhw'n gweld y gwerth, mae eu hetholwyr nhw'n gweld y gwerth, felly mae'n dda gynna i bod y gefnogaeth honno mor barod.

**Siôn Owen (Archwilio Cymru)**
Diolch yn fawr iawn i chi. Diolch yn fawr iawn i chi am rannu eich stori.

**Rhian Jones (Archwilio Cymru)**
Diolch am wrando ar y bennod hon o bodlediad Y Gyfnewidfa.

Os wnaethoch chi fwynhau'r bennod, cofiwch danysgrifio trwy'ch darparwr podlediadau i ddal pennodau'r dyfodol.

Byddai adolygiad cyflym a rhannu gyda'ch ffrindiau neu'ch cydweithwyr yn golygu llawer i ni. Am fwy o wybodaeth, edrychwch ar nodiadau'r bennod. Mae'r holl ddylenni a manylion cyswllt yno.

Gallwch hefyd fynd draw i'n gwefan archwilio dot cymru os oes gennych gwestiynau neu sylwadau, fyddem wrth ein bodd yn clywed gennych.